# Agenda - Y Cyfarfod Llawn

Lleoliad y cyfarfod:

**Y Siambr - Y Senedd**

Dyddiad y cyfarfod:

Dydd Mercher, 4 Tachwedd 2015

Amser y cyfarfod: 13.30

# (295)v2

## 1 Cwestiynau i'r Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol

(45 munud)

Bydd y Llywydd yn galw ar Lefarwyr y Pleidiau i ofyn cwestiynau heb rybudd i'r Gweinidog ar ôl Cwestiwn 2.

Gweld y Cwestiynau

## 2 Cwestiynau i'r Gweinidog Addysg a Sgiliau

(45 munud)

Bydd y Llywydd yn galw ar Lefarwyr y Pleidiau i ofyn cwestiynau heb rybudd i'r Gweinidog ar ôl Cwestiwn 2.

Gweld y Cwestiynau

## 3 Dadl y Ceidwadwyr Cymreig

(60 munud)

**NDM5862 Paul Davies (Preseli Sir Benfro)**

Cynnig bod Cynulliad Cenedlaethol Cymru:

1. Yn nodi gwerth cyfleoedd prentisiaeth amrywiol i Gymru.

2. Yn credu y dylai Llywodraeth Cymru sicrhau bod cyfleoedd ar gyfer cynlluniau lleoliad gwaith ar gael i bobl ar draws cymdeithas yng Nghymru i gynorthwyo ailhyfforddi a chaniatáu ar gyfer cyflogaeth gynaliadwy a blaengar.

3. Yn cydnabod pwysigrwydd cydweithio rhwng pob sector o'r system addysg a busnesau yng Nghymru i helpu i baratoi pobl ifanc ar gyfer y byd gwaith.

**Cyflwynwyd y gwelliant a ganlyn:**

**Gwelliant 1 – Aled Roberts (Gogledd Cymru)**

Ychwanegu pwynt newydd ar ddiwedd y cynnig:

Yn galw ar Lywodraeth Cymru i edrych ar fframwaith cymwysterau ar gyfer pobl rhwng 14 a 18 oed a fyddai'n darparu mwy o ddewis ar gyfer llwybrau academaidd a galwedigaethol a'i gwneud yn haws i symud rhyngddynt er mwyn cefnogi unigolion i wireddu eu potensial llawn.

## 4 Dadl Plaid Cymru

(60 munud)

**NDM5864 Elin Jones (Ceredigion)**

Cynnig bod Cynulliad Cenedlaethol Cymru:

Yn galw ar Lywodraeth Cymru i wella perfformiad o ran mynd i'r afael â thlodi tanwydd.

**Cyflwynwyd y gwelliannau a ganlyn:**

**Gwelliant 1 – Paul Davies (Preseli Sir Benfro)**

Ychwanegu pwynt newydd ar ddiwedd y cynnig:

Yn credu y dylai tlodi tanwydd fod yn ganolog i gynllun gweithredu Llywodraeth Cymru ar gyfer trechu tlodi;

**Gwelliant 1 – Aled Roberts (Gogledd Cymru)**

Ychwanegu pwynt newydd ar ddiwedd y cynnig:

Yn galw ar Lywodraeth Cymru i ymestyn Cymru Effeithlon i gynnig cynllun cynhwysfawr, yn debyg i Resource Efficient Scotland, i wella effeithlonrwydd adnoddau a mynd i'r afael â thlodi tanwydd a newid hinsawdd.

## 5 Dadl Democratiaid Rhyddfrydol Cymru

(60 munud)

**NDM5865 Aled Roberts (Gogledd Cymru):**

Cynnig bod Cynulliad Cenedlaethol Cymru:

1. Yn credu bod gan stryd fawr fywiog ac amrywiol rôl allweddol i'w chwarae yng Nghymru o ran adeiladu cymunedau cynaliadwy ar gyfer y dyfodol, cefnogi swyddi a menter lleol a gwella cynhwysiant a chydlyniant cymdeithasol;

2. Yn cydnabod yr angen i fynd i'r afael â rhwystrau i dwf canol trefi, sy'n cynnwys:

a) y cynnydd mewn adwerthu ar-lein ac ar gyrion trefi;

b) colli gwasanaethau lleol neu asedau cymunedol a'r gyfres ddiweddaraf o fanciau a gafodd eu cau;

c) y gyfradd siopau gwag ar y stryd fawr sy'n gyson yn uwch na chyfartaledd y DU;

d) y diffyg ystyriaeth gynnar o drafnidiaeth gynaliadwy mewn prosiectau adfywio; ac

e) methiant y system gynllunio i hwyluso datblygu ac annog buddsoddiad mewn ymateb i'r newidiadau yn yr hyn y mae cwsmeriaid yn galw amdano.

3. Yn galw ar Lywodraeth Cymru i ystyried cynigion arloesol ar gyfer adfywio'r stryd fawr yng Nghymru, gan gynnwys datblygu rhwydwaith dysgu cenedlaethol i gynnig hyfforddiant ac adnoddau, hwyluso rhwydweithio i gael ysbrydoliaeth ar arfer gorau a chasglu a rhannu mynediad i ymchwil o bob cwr o'r byd ar adfywio canol trefi.

**Cyflwynwyd y gwelliant a ganlyn:**

**Gwelliant 1 - Paul Davies (Preseli Sir Benfro)**

Cynnwys pwynt 1 newydd ac ailrifo yn unol â hynny:

Yn cydnabod polisïau'r Ceidwadwyr Cymreig a nodir yn 'Gweledigaeth ar gyfer y Stryd Fawr yng Nghymru'.

'Gweledigaeth ar gyfer y Stryd Fawr yng Nghymru'

## 6 Cyfnod pleidleisio

## 7 Dadl Fer

(30 munud)

**NDM5863 Jenny Rathbone (Canol Caerdydd)**

Cartrefi'r 21ain Ganrif: yr achos dros dai di-garbon yn awr

Cynhelir Cyfarfod Llawn nesaf y Cynulliad am 13.30, Dydd Mawrth, 10 Tachwedd 2015

# Cwestiynau Llafar y Cynulliad a gyflwynwyd ar 28 Hydref 2015 i'w hateb ar 4 Tachwedd 2015

**R - Yn dynodi bod yr Aelod wedi datgan buddiant.**
**W - Yn dynodi bod y cwestiwn wedi'i gyflwyno yn Gymraeg.**
**(Dangosir rhif gwreiddiol y Cwestiwn mewn cromfachau)**

Bydd y Llywydd yn galw ar Lefarwyr y Pleidiau i ofyn cwestiynau heb rybudd i'r Gweinidog ar ôl cwestiwn 2.

## Gofyn i'r Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol

1. **Rhun ap Iorwerth (Ynys Môn)**: A wnaiff y Gweinidog ddatganiad am y ddarpariaeth o ofal iechyd meddwl? OAQ(4)0652(HSS)**W**

2. **Darren Millar (Gorllewin Clwyd)**: A wnaiff y Gweinidog roi'r wybodaeth ddiweddaraf am fesurau arbennig ym Mwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr? OAQ(4)0644(HSS)

3. **Mick Antoniw (Pontypridd)**: A wnaiff y Gweinidog ddatganiad am driniaeth a gwasanaethau adsefydlu ar gyfer clefyd yr ymennydd sy'n gysylltiedig ag alcohol? OAQ(4)0641(HSS)

4. **Mike Hedges (Dwyrain Abertawe)**: A wnaiff y Gweinidog ddatganiad am y Cynllun Gwên? OAQ(4)0640(HSS)

5. **Jenny Rathbone (Canol Caerdydd)**: A wnaiff y Gweinidog ddatganiad am gynnydd yn nifer presgripsiynau'r GIG? OAQ(4)0645(HSS)

6. **Julie Morgan (Gogledd Caerdydd)**: A wnaiff y Gweinidog ddatganiad am rôl y sector gwirfoddol yn y broses o ddarparu gwasanaethau canser? OAQ(4)0647(HSS)

7. **Kirsty Williams (Brycheiniog a Sir Faesyfed)**: A wnaiff y Gweinidog ddatganiad am wasanaethau iechyd trawsffiniol? OAQ(4)0650(HSS)

8. **Joyce Watson (Canolbarth a Gorllewin Cymru)**: A wnaiff y Gweinidog roi'r wybodaeth ddiweddaraf am y gwaith sy'n cael ei wneud gan Lywodraeth Cymru i amddiffyn plant ifanc rhag ffliw y gaeaf hwn? OAQ(4)0648(HSS)

9. **Andrew RT Davies (Canol De Cymru)**: Pa gamau y mae Llywodraeth Cymru yn eu cymryd i wella mynediad trigolion yng Nghanol De Cymru at feddygon teulu? OAQ(4)0643(HSS)

10. **Janet Finch-Saunders (Aberconwy)**: A wnaiff y Gweinidog ddatganiad am wasanaethau iechyd yng ngogledd Cymru? OAQ(4)0654(HSS)

**11. Elin Jones (Ceredigion):** Beth yw blaenoriaethau Llywodraeth Cymru ar gyfer y gwasanaeth iechyd yng Ngheredigion? OAQ(4)0653(HSS)**W**

**12. Mohammad Asghar (Dwyrain De Cymru):** Pa gamau y bydd Llywodraeth Cymru yn eu cymryd i fynd i'r afael â chanser pancreatig yng Nghymru cyn etholiad nesaf y Cynulliad? OAQ(4)0649(HSS)

**13. Suzy Davies (Gorllewin De Cymru):** A wnaiff y Gweinidog roi'r wybodaeth ddiweddaraf am strategaeth awtistiaeth Llywodraeth Cymru? OAQ(4)0646(HSS)

**14. Nick Ramsay (Mynwy):** A wnaiff y Gweinidog ddatganiad am amseroedd aros ysbytai yn ne-orllewin Cymru? OAQ(4)0651(HSS)

**15. Andrew RT Davies (Canol De Cymru):** Pa gamau y mae Llywodraeth Cymru yn eu cymryd i wella amseroedd aros ar gyfer triniaeth yng Nghanol De Cymru? OAQ(4)0642(HSS)

## Gofyn i'r Gweinidog Addysg a Sgiliau

**1. Darren Millar (Gorllewin Clwyd):** A wnaiff y Gweinidog ddatganiad am ddyfodol addysg grefyddol yng Nghymru? OAQ(4)0539(HSS)

**2. Angela Burns (Gorllewin Caerfyrddin a De Sir Benfro):** A wnaiff y Gweinidog ddatganiad am hyfforddiant cychwynnol athrawon yng Nghymru? OAQ(4)0639(ESK)

**3. Nick Ramsay (Mynwy):** A wnaiff y Gweinidog ddatganiad am gefnogaeth ariannol ar gyfer adeiladau ysgol newydd yng Nghymru? OAQ(4)0641(ESK)

**4. Gwenda Thomas (Castell-nedd):** A wnaiff y Gweinidog ddatganiad am ddarpariaeth addysgol ar gyfer plant sydd â chynlluniau gofal a chymorth? OAQ(4)0643(ESK)

**5. Jenny Rathbone (Canol Caerdydd):** Pa ddylanwad sydd gan y Gweinidog ar faint o athrawon cyflenwi sy'n cael eu talu i gyflenwi ar ran cydweithwyr sy'n absennol? OAQ(4)0646(ESK)

**6. William Powell (Canolbarth a Gorllewin Cymru):** A wnaiff y Gweinidog ddatganiad am raglen Ysgolion y 21ain Ganrif Llywodraeth Cymru yng Nghanolbarth a Gorllewin Cymru? OAQ(4)0635(ESK)

**7. Mike Hedges (Dwyrain Abertawe):** A wnaiff y Gweinidog ddatganiad am addysg ôl-16 yn Abertawe? OAQ(4)0634(ESK)

**8. Jeff Cuthbert (Caerffili):** A wnaiff y Gweinidog ddatganiad am ddarpariaethau ar gyfer addysgu pynciau STEM yn y ddogfen, 'Cwricwlwm i Gymru, Cwricwlwm am Oes'? OAQ(4)0638(ESK)

**9. Lynne Neagle (Torfaen):** A wnaiff y Gweinidog roi'r wybodaeth ddiweddaraf am amserlenni mewn perthynas â darpariaeth ôl-16 yn Nhorfaen? OAQ(4)0645(ESK)

**10. Janet Haworth (Gogledd Cymru):** A wnaiff y Gweinidog roi manylion yr hyn y mae Llywodraeth Cymru yn ei wneud i hwyluso profiad gwaith effeithiol i ddisgyblion ysgol? OAQ(4)0636(ESK)

**11. Russell George (Sir Drefaldwyn):** A wnaiff y Gweinidog ddatganiad am y newidiadau arfaethedig i ddyddiadau derbyn i ysgolion cynradd yng nghanolbarth Cymru? OAQ(4)0640(ESK)

**12. Keith Davies (Llanelli):** A wnaiff y Gweinidog ddatganiad am absenoldeb athrawon? OAQ(4)0642(ESK)

**13. Altaf Hussain (Gorllewin De Cymru):** A wnaiff y Gweinidog ddatganiad am y cwricwlwm newydd arfaethedig yng Nghymru? OAQ(4)0644(ESK)